

Adroddiad Ang-nghronolegol – Bwystfilod Bach (Beth, dim Cynefin?!) 2

Yn ystod eich ymweliad â'n Canolfan Ddarganfod, roeddech chi'n Ecolegwyr Dŵr Cymru yn cynnal arolygon o'r ardal ac yn gofalu am y cynefin. Mae'n rhaid i ni fod yn ofalus i beidio â difrodi cynefinoedd wrth osod ein pibellau. Pa greaduriaid welsoch chi yn ystod eich arolwg?

Cyflwyniad – Atebwch y cwestiynau hyn gyda phartner. Defnyddiwch yr atebion i ysgrifennu'ch cyflwyniad. Pa bedwar peth mae ar anifeiliaid eu hangen er mwyn byw?


B _ _ _ , **C** _ _ _ _ _ , **O** _ _ _ _ _ , **D** _ _ _ _

Ym mha lefydd ddewch chi o hyd i anifeiliaid wrth chwilio am Fwystfilod Bach? (ar, o dan, ger)

Dewiswch ddisgrifiad i gyfateb i'r gwahanol Fwystfilod Bach.

Defnyddiwch yr wybodaeth i ysgrifennu am yr anifeiliaid yn eich adroddiad. Ymchwiliwch i'r anifeiliaid hyn ac ychwanegu unrhyw ffeithiau diddorol eraill.

**Buwch
Goch Gota**



Rwy'n dod allan yn y nos i chwilio am fwyd ac yn gorffwys yn y dydd. Rwy'n chwilio am fwyd sy'n llawn calsiwm i gadw fy nghragen yn drwchus ac yn iachus. Mae fy nghorff yn cynhyrchu llysnafedd trwchus sy'n golygu y gallwn ymlusgo dros rasel finiog heb frifo! Ar ôl paru, rwy'n dodwy tua 100 o wyau gwynion mewn nyth laith o dan y ddaear.

Mwydyn



Mae'n gas gen i olau, ac felly rwy'n tyrchu o dan y ddaear. Does gen i ddim coesau ond mae blew bach, bach drosaf sy'n fy helpu i symud. Rwy'n anadlu trwy fy nghroen. Mae'n rhaid cadw fy nghroen yn llaith fel y gallaf amsugno ocsigen o'r awyr.

**Mochyn
Coed**



Wrth i mi heneiddio, bydd fy smotiau'n mynd yn oleuach. Wrth hedfan, rwy'n curo fy adenydd 85 gwaith yr eiliad. Rwy'n anadlu trwy agoriadau ar fy ochrau. Os ydw i'n teimlo o dan fygythiad, rwy'n chwistrellu hylif melynaid o fy nghoesau. Mae'r hylif yn ffiadd, mae arno aroglau drwg ac mae'n wenwynig i bryfetach eraill.

Malwoden



Nid pryf ydw i, ond cramennog; (mae gen i orchudd caled). Mae gen i draed cryf sy'n gafael yn sownd mewn pethau pan fydd ofn arnaf. Os bydd rhywbeth yn fy mygwth, rwy'n gallu rowlio'n bêl hefyd. Rwy'n bwyta planhigion sy'n pydru, ffyngau a fy mhwyd pw fy hunan ond dydw i ddim yn gwneud pi-pi! Rwy'n cael gwared o fy ngwastraff trwy ei basio trwy fy nghragen fel nwy.

Ymchwil – Soniwch am ddau fwystfil bach arall yn eich adroddiad (morgrugyn, chwilen, corryn/ pry copyn). Defnyddiwch lyfrau a'r rhyngwyd i chwilio am ffeithiau difyr am yr anifeiliaid hyn.

Casgliad – Ysgrifennwch am eich hoff anifail o blith y rhai a welsoch a dweud pam. Anogwch y bobl sy'n darllen eich adroddiad i fynd i goedwig yn eu hardal i chwilio am fwystfilod bach.